

Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan

Cynllun Strategol 2018 – 2021



Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
1. CEFNDIR	3
2. Y WELEDIGAETH A'R PRIF FLAENORIAETHAU	4
3. Y CYNNYDD A WNAED A'R HYN A GYFLAWNWYD ERS EI SEFYDLU	5
4. Y BLAENORIAETHAU A'R TRYWYDD AR GYFER Y DYFODOL	7
5. LLYWODRAETHU	10
6. CYHOEDDIADAU BLAENOROL YR ARDAL FENTER	11

1. CEFNDIR

Ardaloedd Menter Cymru

Ceir wyth **Ardal Fenter** yng Nghymru. Ardaloedd daearyddol dynodedig yw'r Ardaloedd Menter, ac maent yn cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu drwy ddarparu seilwaith a chymorth busnes o'r radd flaenaf. Mae pob Ardal Fenter yn canolbwyntio ar o leiaf un sector busnes allweddol.

Mae Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan yn canolbwyntio ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, ac yn enwedig ei is-sector awyrofod.



I gael mwy o wybodaeth am yr Ardaloedd Menter, ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy>

2. Y WELEDIGAETH A'R PRIF FLAENORIAETHAU

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer yr Ardal Fenter yw cryfhau'r sylfeini sydd eisoes yn eu lle i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i Faes Awyr Caerdydd a Sain Tathan ddod yn ganolfan ragoriaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer gweithgareddau Cynnal a Chadw, Atgyweirio a Gweithrediadau (MRO).

Mae'r weledigaeth ar gyfer yr Ardal yn cydnabod pum prif flaenoriaeth:

- Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd uchel;
- Gwneud Cymru yn lle mwy atyniadol ar gyfer busnes;
- Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau;
- Annog arloesedd;
- Targedu'r cymorth busnes a gynigiwn.

Mae'r Bwrdd a Chyngor Bro Morgannwg wedi cytuno ar Fframwaith Datblygu a byddant yn mynd ati i ymgynghori ar y ddogfen hon. Byddant yn ystyried darparu cefnogaeth i roi prosiectau'r sector preifat ar waith, gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb a chymorth marchnata.

Ystyriaethau pwysig o ran seilwaith ac eiddo

Mae mynediad ffyrdd o fewn yr Ardal Fenter wedi gwella yn sgil sythu Troadau Gileston a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ystyried mesurau i wella Five Mile Lane.

Ym Maes Awyr Caerdydd, gwnaed gwelliannau sylweddol i wella profiadau ymwelwyr gyda'r nod o ddenu mwy o lwybrau. Mae hyn wedi cynnwys gwaith i ad-drefnu'r meysydd parcio, newidiadau mewnol i ddarparu mwy o olau naturiol, a chynyddu trafniadaeth gyhoeddus i'r maes awyr. Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o'r cynllun busnes uchelgeisiol sy'n cael ei roi ar waith gan y maes awyr.

Bydd angen buddsoddi i adeiladu unedau datblygedig yn Sain Tathan yng ngoleuni'r diddordeb sy'n cael ei greu yn y farchnad. Mae'r trafodaethau â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gytuno ar wahanu'r safle yn parhau.

Gallai safle'r porth fod yn ganolfan ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol i ddarparu ar gyfer cludo nwyddau ac ymchwil a datblygu, ac mae dyhead i wella'r ddarpariaeth academaidd bresennol yn yr Ardal Fenter.

3. Y CYNNYDD A WNAED A'R HYN A GYFLAWNWYD ERS EI SEFYDLU

Ymhlith y cynydd a wnaed yn yr Ardal Fenter i gefnogi amcanion y Bwrdd mae'r hyn a ganlyn:

- Mae **Aston Martin** wedi dewis Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan i fod yn safle ar gyfer ei ail leoliad gweithgynhyrchu. Mae'r buddsoddiad hwn yn gydnaws â ffocws yr Ardal Fenter ar beirianneg, gweithgynhyrchu a deunyddiau o'r radd flaenaf, a bydd yn cefnogi ac yn ategu'r ffocws o'r newydd ar asedau'r Maes Awyr a'r ardal o'u hamgylch. Gallai tua 750 o swyddi gael eu creu pan fydd y safle'n gweithredu'n llwyr erbyn 2019.
- Mae **Maes Awyr Caerdydd** wedi datblygu'n sylweddol dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru. Cafwyd cynnydd o 48% yn nifer y teithwyr dros y tair blynedd diwethaf, a sefydlwyd llwybrau hedfan newydd i'r Almaen, Iwerddon, yr Eidal, Ffrainc a Sbaen yn ystod y cyfnod hwnnw. Dechreuodd Qatar Airways hediadau i Doha ym mis Mai 2018 hefyd.
- Yn sgil cydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru, contractwr rheoli newydd y maes awyr, Serco Ltd, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, mae **maes awyr Sain Tathan** bellach ar agor saith diwrnod yr wythnos ac mae hyn yn gwella'r gallu i farchnata'r Parc Busnes Awyrofod yn sylweddol.
- Mae contractwyr **Bristow Helicopters**, Balfour Beatty, wedi cwblhau'r gwaith o adeiladu cyfleuster £5m ar gyfer gwasanaeth Chwilio ac Achub de Cymru a de-orllewin Lloegr.
- Yn ychwanegol at y **cyfleuster cynnal a chadw, atgyweirio a gweithrediadau** (MRO) sydd eisoes ar waith yn Sain Tathan, mae **Cardiff Aviation Ltd** wedi sefydlu cyfleuster hyfforddi yn Awyrendy Norman ym Maes Awyr Caerdydd.
- Yn sgil datblygu safle **Picketston** yn Sain Tathan, mae nifer o gwmnïau wedi symud i'r safle ac mae disgwyl iddynt greu 48 o swyddi. Pan fydd y busnesau, llawer ohonynt yn fusnesau bach a chanolig, wedi ymsefydlu ar y safle, disgwylir i nifer y swyddi gynyddu i fwy na 150.
- Mae'r Bwrdd yn cydweithio'n agos â Choleg Caerdydd a'r Fro i bwysu a mesur y posibilrwydd o ddarparu darpariaeth arbenigol ar gyfer mewnfuddsoddwyr a chyflogwyr yr Ardal Fenter, a hynny o'r Ganolfan Hyfforddiant Awyrofod Ryngwladol ym Maes Awyr Caerdydd.
- Mae menter leol i hybu **cynllun prentisiaethau** yn sector awyrofod yr Ardal Fenter wedi cyflwyno adroddiad am ei chasgliadau. Mae'n nodi bod 7% o brentisiaethau yn yr Ardal Fenter o'i gymharu â norm o oddeutu 2.5%. Dan y teitl "Economy with Skills", fe'i cyflwynwyd i'r Gweinidog ei ystyried.
- Ym mis Gorffennaf 2018, daeth menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig i ben. Cytunwyd y bydd

Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig yn gyfrifol am weithredu'r maes awyr a'i wasanaethau yn Sain Tathan.

Perfformiad yr Ardaloedd Menter

Cyhoeddir diweddariad am y cynnydd a wnaed o ran prif brosiectau'r Ardaloedd Menter bob blwyddyn (gweler Adran 6 – Cyhoeddiadau blaenorol yr Ardal Fenter i gael dolenni at y dogfennau perthnasol).

- O'r dyddiad y cafodd ei sefydlu hyd at fis Mawrth 2018, cafodd 231.6 o swyddi eu creu, naill ai drwy gymorth ariannol uniongyrchol neu drwy gymorth ehangach gan Lywodraeth Cymru. Cafodd 85 o swyddi eraill eu cynorthwyo.
- O'r dyddiad y cafodd ei sefydlu hyd at fis Mawrth 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi bron i £23.5m ac mae'r sector preifat wedi buddsoddi bron i £6.4m.
- O'r dyddiad y cafodd ei sefydlu hyd at fis Mawrth 2018, mae 34 o fusnesau yn yr Ardal Fenter wedi cael cymorth a chefnogaeth ariannol drwy raglenni cymorth busnes Llywodraeth Cymru neu drwy ymyriadau uniongyrchol.

Y Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter

Lansiwyd y Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter ym mis Hydref 2012 fel modd o ddarparu cymorth ariannol ar gyfer yr ardrethi busnes y mae'n rhaid i fusnesau bach a chanolig yn Ardaloedd Menter Cymru eu talu. Ers ei lansio, mae 18 o fusnesau yn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan wedi elwa ar Gynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter Cymru, gyda thros £209,586 wedi'i ddarparu tuag at gostau eu hardrethi busnes.

4. Y BLAENORIAETHAU A'R TRYWYDD AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r Bwrdd wedi pennu'r prif flaenoriaethau ac amcanion a ganlyn er mwyn datblygu'r Ardal Fenter ymhellach yn y dyfodol:

- 1) Cymeradwyo a chefnogi Uwchgynllun ugain mlynedd Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig sy'n cynnwys y nodau strategol a ganlyn:
 - Mae'r Maes Awyr yn dyheu i fod yn faes awyr rhagorol prifddinas sy'n cysylltu Cymru â'r Byd a'r Byd â Chymru;
 - Bod yn fusnes maes awyr cynaliadwy sy'n cynhyrchu budd economaidd i Gymru;
 - Cynyddu nifer y teithwyr o 1.5 miliwn y flwyddyn i 3 miliwn a mwy;
 - Cynyddu'r cyfleusterau i ateb gofynion y nifer gynyddol o deithwyr;
 - Tyfu gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng y datblygiadau a phryderon amgylcheddol a chymdeithasol lleol, gan sicrhau bod y Maes Awyr yn cydnabod y rôl bwysig y mae cynaliadwyedd yn ei chwarae yn y weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

I gyflawni'r nodau hyn, pennwyd yr amcanion a ganlyn:

- Creu Porth Rhyngwladol;
- Cynyddu'r capasiti i dair miliwn o deithwyr a mwy y flwyddyn;
- Denu cwmnïau hedfan newydd, sicrhau llwybrau newydd a rhoi rhagor o ddewis i deithwyr;
- Arallgyfeirio'r maes awyr i greu ac i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer hedfan, cargo, addysg, technoleg ac arloesi;
- Datblygu terfynfa newydd i gyflwyno hunaniaeth unigryw fel porth i Gymru;
- Cynnig mwy o ddewisiadau teithio i gwsmeriaid, y gymuned a thîm y Maes Awyr; car, bws, trên, tacsï, llogi car a theithio egnïol;
- Cydweithio â Metro De-ddwyrain Cymru i ddatblygu dewisiadau teithio integredig.

2). Datblygu'r Parc Busnes Awyrofod yn Sain Tathan i wireddu potensial y safle i greu twf economaidd sylweddol. Mae hyn yn cynnwys y nodau strategol a ganlyn:

- Hyrwyddo Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan fel amgylchedd o safon i wneud busnes ynddo (fel un o amcanion parhaus Fframwaith Datblygu Strategol 2015);
- Sicrhau gweithrediad hirdymor y Parc Busnes Awyrofod i hybu mewnfuddsoddiad ac i ddarparu ar gyfer twf busnesau;

- Cynnal mantais gystadleuol Cymru yn y sector awyrofod, yn enwedig o ran gweithgynhyrchu, a chynnal a chadw, atgyweirio a gweithrediadau (MRO);
- Manteisio ar leoliad safle Aston Martin i sbarduno buddsoddiadau pellach;
- Cynyddu capasiti'r Parc Busnes Awyrofod i ddarparu ar gyfer busnesau modur a busnesau eraill nad ydynt yn rhan o'r sector awyrofod;
- Cynyddu nifer y swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel yn y Parc Busnes Awyrofod.

I gyflawni'r nodau hyn, pennwyd yr amcanion a ganlyn:

- Caffael rhydd-ddaliad y Parc Busnes Awyrofod;
- Trefniadau mynediad a diogelwch y safle – Ar hyn o bryd, mae'r Parc Busnes Awyrofod wedi'i leoli mewn ardal ddiogel sy'n cael ei rheoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. O 31 Mawrth 2019, bydd LIC yn rhoi trefniadau diogelwch newydd ar waith;
- Seilwaith y ffyrdd – bydd Ffordd Fynediad Gogledd Ardal Fenter Sain Tathan yn gwella'r mynediad i ochr ogleddol y Parc Busnes Awyrofod yn sylweddol. Yn y dyfodol, hon fydd prif fynedfa'r safle;
- Gwelliannau i'r A4226 (Five Mile Lane) a mynediad i'r Ardal Fenter ehangach;
- Gweithrediadau'r maes awyr: i sicrhau bod Sain Tathan yn parhau i fod yn faes awyr cyfan gwbl weithredol, mae LIC yn paratoi i drosglwyddo'r maes awyr i awdurdodaeth yr Awdurdod Hedfan Sifil o 1 Ebrill 2019 ymlaen;
- Mae'n hanfodol trosglwyddo'r maes awyr i reolaeth sifil i sicrhau hyfywedd y Parc Busnes Awyrofod ar gyfer y tenantiaid presennol yn y sector awyrofod a datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r sector awyrofod yn y dyfodol;
- Paratoi lleiniau datblygu – i ehangu'r gweithgarwch masnachol yn y Parc Busnes Awyrofod, mae angen ymgymryd â nifer o fesurau seilwaith ar draws gwahanol rannau o'r Parc Busnes Awyrofod i sicrhau bod y lleiniau'n addas ar gyfer buddsoddiad preifat ar raddfa fawr;
- Manteisio ar y gofod sydd ar gael yn y Parc Busnes Awyrofod a chynllun y safle (gan gynnwys y rhedfa weithredol) i baratoi ar gyfer buddsoddiadau yn y sector awyrofod ac mewn sectorau eraill;
- Paratoi safleoedd strategol ar gyfer mewnfuddsoddiad ar raddfa fawr;
- Paratoi lleiniau datblygu penodol ar gyfer y farchnad yn gyffredinol.

3) Cynorthwyo Canolfan Gynnal a Chadw British Airways (BAMC) i barhau i fod yn lleoliad a ffefrir ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar yr awyrennau llydan sy'n rhan o fflyd BA.

I gyflawni'r nodau hyn, pennwyd yr amcanion a ganlyn:

- Darparu cymorth drwy weithgareddau LIC i sicrhau bod modd gwneud cynnydd o ran deunyddiau cyfansawdd ar gyfer awyrennau'r genhedlaeth newydd fel y Boeing 787 (Dreamliner) a'r Airbus 350;
- Parhau i fod yn gwmni angori pwysig ar gyfer y rhanbarth;
- Cynorthwyo'r ganolfan i gael mynediad at weithgareddau amgen ac ategol yn y farchnad hedfanaeth ehangach ar gyfer cynnal a chadw, atgyweirio a gweithrediadau (MRO).

4) Datblygu'r set sgiliau a'r cyfleoedd hyfforddi i ateb gofynion y twf ar draws yr Ardal Fenter.

I gyflawni'r nodau hyn, pennwyd yr amcanion a ganlyn:

- Datblygu a chynnal y Cynllun Prentisiaethau Awyrofod ar ôl sefydlu cyfradd fanteisio o 7% yn 2018;
- Arallgyfeirio'r gyflogaeth sydd ar gael ym maes peirianeg i fabwysiadu technegau newydd ac i ddatblygu'r marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg.

5. LLYWODRAETHU

Byrddau'r Ardaloedd Menter

O'r dyddiad y cafodd yr Ardaloedd Menter eu sefydlu hyd at fis Gorffennaf 2018, cafodd pob Ardal Fenter ei harwain gan Fwrdd Cyngori annibynnol o'r sector preifat sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch y camau i weithredu ac i gyflawni cynlluniau gweithredu a blaenoriaethau'r Ardaloedd Menter.

Trefniadau llywodraethu'r Ardal Fenter yn y dyfodol

Daeth cyfnod y Bwrdd presennol i ben ar 31 Gorffennaf 2018. Bydd trefniadau llywodraethu'r Ardal Fenter yn trosglwyddo i strwythur(au) cyngori addas eraill maes o law.

6. CYHOEDDIADAU BLAENOROL YR ARDAL FENTER

Cynlluniau Strategol

Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan – Cynllun Strategol 2015 (gan gynnwys diweddariadau a wnaed yn 2016 a 2017)

<http://gov.wales/docs/det/publications/170719-strategic-plan-cardiff-airport-and-st-athan-cy.pdf>

Ardaloedd Menter – Diweddariad cynnydd Tachwedd 2014

<http://gov.wales/docs/det/publications/141203-ezw-progress-update-cy.pdf>

Ardaloedd Menter – Diweddariad cynnydd Hydref 2013

<https://gov.wales/docs/det/publications/141001enterprisezonesummarycy.pdf>

Perfformiad yr Ardaloedd Menter

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2017/18

<https://gov.wales/docs/det/publications/dangosyddion-perfformiad-allweddol-ardaloedd-menter-adroddiad-blynyddol-ebrill-2017-i-mawrth-2018.pdf>

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2016/17

<https://gov.wales/docs/det/publications/170719-kpi-16-17-cy.pdf>

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2015/16

<https://gov.wales/docs/det/publications/160802-kpi-15-16-cy.pdf>

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2014/15

<https://gov.wales/docs/det/publications/150615-ezw-kpi-14-15-cy.pdf>

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2012/13 a 2013/14

<https://gov.wales/docs/det/publications/140522ezwkpi1213-1314icy.pdf>